

ATODLEN 2

TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

RHAN 4

RHEOL ISAFSWM Y GYDNABYDDIAETH

Rheol isafswm y gydnabyddiaeth

- 15 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo paragraff 7(3) neu 13(2) (trafodiadau cyn-gwblhau: caffael buddiant trethadwy, neu ei drin fel pe bai wedi ei gaffael, gan y trosglwyddai) yn gymwys.
- (2) Os oes cysylltiad perthnasol rhwng partion, yna at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 4 ystyrir mai'r gydnabyddiaeth a roddir gan y prynwr ar gyfer testun y trafodiad tir y cyfeirir ato ym mharagraff 7(4) neu 13(2) yw'r uchaf o'r canlynol—
- (a) y swm a fyddai oni bai am yr is-baragraff hwn,
 - (b) yr isafswm cyntaf (gweler paragraff 16), neu
 - (c) yr ail isafswm (gweler paragraff 17).
- (3) Mae “cysylltiad perthnasol rhwng partion” os yw'r trosglwyddai mewn perthynas â'r trafodiad cyn-gwblhau a grybwyllir ym mharagraff 7(1) neu 13(1) (“y trafodiad a weithredwyd”) yn gysylltiedig â'r canlynol, neu heb fod yn gweithredu hyd braich iddynt—
- (a) y trosglwyddwr mewn perthynas â'r trafodiad a weithredwyd, neu
 - (b) trosglwyddwr mewn perthynas â thrafodiad cyn-gwblhau—
 - (i) sy'n un mewn cadwyn o drafodiadau cyn-gwblhau olynol (oll ag o leiaf ran o'u testun yn gyffredin a chan gynnwys y trafodiad a weithredwyd) mewn perthynas â'r contract gwreiddiol, a
 - (ii) sy'n rhagflaenu'r trafodiad a weithredwyd yn y gadwyn.
- (4) Pan fo'r trafodiad a weithredwyd yn drafodiad cyn-gwblhau mewn perthynas ag—
- (a) contract ar gyfer trafodiad tir nad yw ei hun yn drosglwyddiad annibynnol mewn perthynas ag unrhyw contract arall, a
 - (b) contract, neu ddau neu ragor o gontractau olynol, sydd ei hun neu eu hunain yn drosglwyddiadau annibynnol mewn perthynas â'r contract a grybwyllir ym mharagraff (a),
- mae cyfeiriadau yn y Rhan hon o'r Atodlen hon at y “contract gwreiddiol” yn gyfeiriadau at y contract a grybwyllir ym mharagraff (a) yn unig (ac mae cyfeiriadau at y “prynwr gwreiddiol” i'w darllen yn unol â hynny).